Nord Est SUD Ouest
INTERREG IIIC

Robinwood

DATGANIAD I'R GWASG/PRESS RELEASE

Beth yw Robinwood ?

Mae Robinwood yn brosiect newydd cyffrous sy'n ystyried sut y gellir defnyddio coed a choedwigoedd i ddarparu swyddi a busnesau newydd i gadw cymunedau gwledig ledled Ewrop yn fyw trwy greu incwm ychwanegol.

Enwyd y prosiect gan yr Eidalwyr a benderfynodd chwarae ar yr enw Robin Hood - yr arwr chwedlonol hwnnw a oedd yn enwog am gymryd oddi ar y cyfoethog a rhoi i'r tlawd.

Prosiect Ewropeaidd tair blynedd o dan gynllun Gweithredu'r Fframwaith Rhanbarthol Interreg IIIc yw Robinwood ac mae'n cael ei weithredu gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y bwriad yw paratoi glasbrint i ddangos sut y gall coedwigoedd gynnig pob math o gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae gofalu am y coedwigoedd ar gyfer ein plant a'u plant hwythau, manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd busnes, datblygu coed fel ffynhonnell ynni gynaliadwy a chanfod sut y gall coed helpu i atal trychinebau naturiol yn rhannau canolog o'r prosiect. Elfen ganolog arall fydd ceisio newid agweddau gwleidyddol pobl at bwysigrwydd coedwigaeth i fywyd gwledig - a symud rhwystrau rhwng gwledydd trwy gael pobl ledled Ewrop i weithio fel tîm.

Os hoffech ragor o fanylion, cysylltwch â: Owen Thurgate, rheolwr rhaglen Robinwood, Cymru. Rhif ffôn: 01550 720394; Ffôn symudol 07831 808071 e-bost owen.thurgate@forestry.gsi.gov.uk.

LAND BRANDENBURG
Ministerium für Ländliche Entwicklung, Umwelt und Verbraucherschutz

Región de Murcia
Consejería de Medio Ambiente y Ordenación del Territorio
Dirección General del Medio Natural

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

EC BREC